

# Blaenau Gwent Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

**Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Strategol Blynyddol  
Hydref 2020 – 2022**

**“Cymru fwy Cyfartal, gan roi tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn!”**

Mae copïau caled o’r adroddiad blynyddol hefyd ar gael ym mhob un o lyfrgelloedd lleol Blaenau Gwent. Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol, e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, ac ati, cysylltwch â:

**Polisi a Phartneriaethau**

E-bost: [pps@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:pps@blaenau-gwent.gov.uk)

**Cynnwys**

Rhagair	4-5
Cyflwyniad	6
Ein Cynnydd:	
<b>Amcan Cydraddoldeb 1</b> - Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau tegwch a chydaddoldeb ym mhopeth a wnawn	7-10
<b>Amcan Cydraddoldeb 2</b> - Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.	11-13
<b>Amcan Cydraddoldeb 3</b> - Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu.	14-19
<b>Amcan Cydraddoldeb 4</b> - Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol.	20-22
<b>Amcan Cydraddoldeb 5</b> - Byddwn yn sicrhau bod cyfranogiad ystyrllon gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau.	23-31
<b>Amcan Cydraddoldeb 6</b> - Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig	32-34
<b>Camau Nesaf a Chynlluniau Gweithredu</b>	35-42
<b>Atodiad:</b>	
Crynodeb o ddata'r gweithlu	43-49

## Rhagair

Rydym yn falch o ddarparu ein cynnydd tuag at [Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24](#). Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2020-24. Mae'r adroddiad blynyddol yn ymdrin â'r cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021 ac yn nodi sut rydym yn cyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae rhoi tegwch a chydraddoldeb wrth galon popeth a wnawn yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ein cynllun cydraddoldeb. Rydym yn cydnabod ein rôl allweddol, fel corff cyhoeddus, wrth hyrwyddo a chryfhau cydraddoldeb ar draws Blaenau Gwent ac rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad 'teg a chyfiawn' fel yr amlinellir yn ein [Cynllun Corfforaethol 2018-22](#).

I gyflawni hyn, rydym yn parhau i ddarparu ystod o raglenni a gweithgareddau, mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus eraill, i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a chyflawni canlyniadau cydraddoldeb ystyrlon ar gyfer Blaenau Gwent. Gan gynnwys gwneud cynnydd tuag at gyfrannu at [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) a'r saith Nod Cenedlaethol.

Rhaid inni gydnabod pwysigrwydd cynyddol ein gwaith cydraddoldeb, yn ystod 2020 a 2021, wrth inni barhau i ymateb i effeithiau pandemig byd-eang COVID-19. Mae ein hadroddiad blynyddol yn amlygu'r gwaith Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a wnaethom i ddeall yn well sut yr effeithir ar fywydau pobl, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Defnyddir canfyddiadau pwysig y gwaith hwn bellach i lywio cynlluniau adfer Blaenau Gwent yn ogystal â chyflawni ar gyfer dwy flynedd arall ein cynllun cydraddoldeb.

Yn olaf, hoffem ddiolch i'n staff, cymunedau lleol, a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus i'n helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau statudol.



Cynghorydd Nigel Daniels,  
Arweinydd y Cyngor



Damien McCann,  
Prif Weithredwr Dros Dro

## Cyflwyniad

Mae ein hadroddiad blynyddol yn amlygu sut yr ydym yn cyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (y “ddyletswydd gyffredinol”) trwy sicrhau ein bod yn cefnogi cymdeithas decach trwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da. Rydym yn parhau i wneud hyn drwy gydnabod gwerth amrywiaeth drwy ein gweithgareddau o ddydd i ddydd a sut rydym yn darparu ein polisiau a’n gwasanaethau:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Rhennir ein hadroddiad blynyddol yn chwe phrif adran - un ar gyfer pob un o’n hamcanion cydraddoldeb strategol. Mae pob prif adran wedi’i rhannu i’r is-adrannau canlynol:

- Trosolwg – yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud
- Cynnydd – yr hyn a wnaethom
- Enghreifftiau o arfer da
- Camau nesaf

Daw ein hadroddiad blynyddol i ben drwy grynhoi pa gamau y bwriadwn eu cyflawni dros y ddwy flynedd sy’n weddill o’r cynllun fel rhan o’n camau nesaf.

## Cynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb

### 1. Amcan Cydraddoldeb

***“Byddwn yn sefydliad sy’n sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn”***

#### **Trosolwg (yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud)**

Rydym am fod yn sefydliad sy’n sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd gwerthoedd craidd a phopeth a wnawn ac sy’n ‘fusnes fel arfer’. Cydnabod gwerth gwaith cydraddoldeb i’n cefnogi i gyflawni canlyniadau ystyrllon i’n staff, dinasyddion, cymunedau lleol, a rhanddeiliaid, megis datblygu diwylliant gweithlu cefnogol neu ddarparu wasanaethau sy’n hygyrch i bawb.

Ein nod yw hyrwyddo cydraddoldeb ar draws Blaenau Gwent trwy arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol gref a thrwy ddatblygu fframwaith effeithiol ar gyfer cyflawni a gefnogir gan y sefydliad cyfan.

#### **Cynnydd (beth wnaethon ni)**

Mae ein Tîm Arwain Corfforaethol a Rheoli Ysgolion yn parhau i ddatblygu a chryfhau eu rhaglen cydraddoldeb. Cynhaliwyd dau weithdy ar-lein arbennig i ystyried amcanion cydraddoldeb strategol y sefydliad; yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ar hyn o bryd; a pha gamau y mae angen eu cymryd ar y cyd i gryfhau ein hymagwedd fel ‘Un Cyngor’ yn 2022/23.

Rydym wedi parhau i hyrwyddo’r agenda cydraddoldeb yn wleidyddol ac yn broffesiynol i godi proffil cydraddoldeb ac rydym yn parhau i hyrwyddo ymgyrchoedd rhyngwladol megis Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio’r Holocaust, Mis Hanes LGBTQ+ (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Queer +) Er enghraifft, cynhaliodd ein Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Cyngor fore coffi gyda staff i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Mae ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb a'n Harweinydd yn eistedd ar Rwydwaith Cydraddoldeb Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac mae'r Cyngor hefyd yn cael ei gynrychioli mewn amrywiol gyfarfodydd Rhwydwaith Cydraddoldeb Cenedlaethol a Rhanbarthol i gydweithio a rhannu arfer da a dysgu.

Fel sefydliad rydym yn parhau i addo ein cefnogaeth i ymgyrchoedd cydraddoldeb Cenedlaethol newydd a pholisïau newydd, megis [Dim Hiliaeth Cymru](#); Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030 – [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Drafft](#) a [Chynllun Gweithredu Drafft ar gyfer LGBTQ+ i Gymru](#) yn ogystal â mentrau cydraddoldeb hirsefydlog fel y Cyngorau Balch. Gan gydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru, fe wnaethom gefnogi Pride a chyflawni prosiectau lleol fel ein Cystadleuaeth Gelfyddydol - Wythnos Pobl Ifanc dros Pride ym mis Awst 2021.

***Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***

Yn dilyn cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, ym mis Ebrill 2021, fe wnaethom gynnal adolygiad o'n proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb bresennol a chymryd camau i ddatblygu proses Asesiad Effaith Integredig newydd i fodloni gofynion ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd. Mae'r Asesiad Effaith Integredig newydd yn darparu proses ar gyfer lleihau anghydraddoldebau canlyniadau yn ystod datblygiad unrhyw strategaethau, polisiâu, neu adolygiadau darparu gwasanaeth ac ati sydd newydd eu cynnig ac mae'n sbardun allweddol ar gyfer sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei integreiddio'n llawn fel rhan o swyddogaethau busnes y Cyngor. Mae hefyd yn sicrhau bod penderfyniadau strategol allweddol (fel cynlluniau corfforaethol, cynlluniau gwella, neu amcanion strategol ac ati) yn ystyried sut mae effeithiau anfanteision economaidd-gymdeithasol - a ddiffinnir fel pobl yn *"byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas"* (Llywodraeth Cymru)— gallu cael eu lleihau drwy gymhwyso addasiadau rhesymol.

Aeth templed sgrinio a thempled asesiad llawn yn fyw ar Medi 2021 ac fe'u cynhwyswyd fel rhan o'n trefniadau Adrodd Corfforaethol newydd. I gefnogi'r trefniadau newydd derbyniodd Timau Corfforaethol ac Uwch Dimau Rheoli sesiynau briffio a oedd yn rhoi arweiniad llawn ar fodloni'r gofynion newydd ac yn pwysleisio'r cyfle i leihau effeithiau negyddol yn erbyn pobl sy'n cael eu hamddiffyn gan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 trwy brosesau gwneud penderfyniadau gwell.

Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn rydym yn parhau i gryfhau a datblygu'r defnydd o ddata a gwybodaeth cydraddoldeb i lywio busnes y Cyngor. Er enghraifft, yn dilyn pandemig COVID-19, fe wnaethom gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer Pobl Hŷn i ddeall yr effeithiau'n well gan ddefnyddio cymysgedd o ffynonellau cynradd ac eilaidd megis setiau data Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol yn ogystal â phrofiadau bywyd pobl leol. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ein Hasesiadau o'r Effaith ar y Gymuned flaenorol a oedd yn ystyried Plant a Phobl Ifanc, Teuluoedd â Phlant Ifanc a Phobl ag Anabledd Dysgu. Defnyddiwyd canfyddiadau'r gwaith hwn i lywio proses cynllunio adferiad y Cyngor.

Mae ein data Cydraddoldeb Gweithlu blynyddol ar gyfer 2020/21 ar gael drwy Ffynhonnell Agored ar wefan Cyngor Blaenau Gwent o dan y dudalen "[Cydraddoldeb ym Mlaenau Gwent](#)". Defnyddir y data hwn i gael darlun effeithiol o amrywiaeth ein sefydliad ac fe'i defnyddiwyd i lywio datblygiad ein Strategaeth Datblygu Gweithlu newydd.



## Enghreifftiau o Arfer Da

### Enillydd Gwobr Pride Cyngorau Balch ([Twitter – neges cyfryngau cymdeithasol](#))

“Llongyfarchiadau i Eva am greu’r darn anhygoel yma o gerddoriaeth ddewisodd @CynghorauBalch fel un o enillwyr cystadleuaeth Pride “Becoming Me” i bobl ifanc! Diolch i bob person ifanc a gymerodd ran, gwnaethoch chi'r gwaith o ddewis enillydd yn anodd dros ben!”

### Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (#Torri’rRhagfarn) – 8fed o Fawrth 2022

I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, cynhaliwyd bore coffi gan ein Rheolwr Gyfarwyddwr, Michelle Morris er mwyn i’r holl staff ddod at ei gilydd i ddathlu. Lanswyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i nodi’r achlysur.



### **Camau nesaf**

- Parhau i godi proffil yr agenda cydraddoldeb ar draws y sefydliad a'i wreiddio fel "busnes fel arfer", gyda chefnogaeth drwy gyflawni ein Cynllun Gweithredu 2022-23 a fydd yn cael ei fonitro a'i adolygu drwy drefniadau cynllunio busnes y Cyngor.
- Sicrhau bod y sefydliad yn cael y canllawiau a'r cymorth diweddaraf, gan gynnwys rhannu arfer da, i gyflawni ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, gan gynnwys ymgysylltiad parhaus timau arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol a chefnogaeth barhaus i ymgyrchoedd cydraddoldeb Cenedlaethol a Rhanbarthol.
- Adolygu effeithiolrwydd y broses Asesu Effaith Integredig newydd a gweithrediad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran cydraddoldeb.
- Sicrhau bod data a gwybodaeth am gydraddoldeb, megis canfyddiadau'r Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, yn hygyrch i gefnogi gwneud penderfyniadau gwell.

## 2. Amcan Cydraddoldeb

***“Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy’n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth”***

### **Trosolwg (yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud)**

Rydym yn cydnabod gwerth bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a chael ein hadnabod fel cyflogwr o ddewis. Rydym am gymryd y camau angenrheidiol i greu a chynnal gweithlu amrywiol gan ein bod yn cydnabod y manteision gwirioneddol y gall hyn eu cynnig i’r sefydliad yn ogystal â’r bobl leol a’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Ein nod yw datblygu gweithlu *“sy’n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth”* er mwyn cyflawni ein gwerth craidd o fod yn sefydliad *“cyfartal a theg”* fel yr amlinellir yn ein [Cynllun Corfforaethol 2018-22](#).

### **Cynnydd (beth wnaethon ni)**

Rydym wedi datblygu [Strategaeth Gweithlu 2021-26](#) newydd sy’n nodi’r canlyniadau blaenoriaeth allweddol y mae angen i ni eu cyflawni er mwyn creu gweithlu effeithiol:

- Iechyd, diwylliant ac arweinyddiaeth effeithiol
- Rhagoriaeth mewn rheolaeth ar draws y cyngor
- Gweithlu ymroddedig iawn
- Gwneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni ar sail tystiolaeth
- Cyflogwr modern o ddewis

Er mwyn ein cefnogi i ddod yn ‘gyflogwr modern o ddewis’, ymgwymerwyd â gwaith cychwynnol i ddeall amrywiaeth y gweithlu. Er enghraifft, mae ystyried data a gwybodaeth am y gweithlu wedi ein galluogi i ddeall materion cydraddoldeb megis y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau—mesur cydraddoldeb statudol a ddefnyddiwn i ddeall y gwahaniaeth mewn enillion cyfartalog rhwng menywod a dynion. Wrth asesu, telir dynion a menywod yn gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws Cyngor Blaenau Gwent, gyda gweithlu benywaidd yn bennaf (76.5% benywaidd, 23.5% gwrywaidd), mewn canran uchel o swyddi ar draws pob un o’r pedwar chwarterl cyflog. At hynny, mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 2.94 yn sylweddol is na chyfartaledd cenedlaethol y DU.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Cyngor Blaenau Gwent, o dan y dudalen [“Datganiad Polisi Tâl”](#) sydd i’w ddiweddarau yn 2023. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i wella ansawdd ein data gweithlu, ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig, fel y gallwn gael darlun mwy cywir o ba mor amrywiol ydym, a chymryd

unrhyw gamau angenrheidiol i ddod yn sefydliad sy'n cynrychioli ei ardal leol a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Yn 2021, fe wnaethom weithredu ein Polisi Gweithio Ystwyth newydd a oedd yn sicrhau bod staff yn gallu gweithio gartref, neu o'r gymuned yn ddiogel ac yn effeithiol, yn dilyn asesiadau risg, a oedd yn sicrhau bod staff yn cael yr addasiadau neu'r offer angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Hefyd, rydym wedi dangos ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle drwy adolygu, diweddarau a chreu'r polisïau a'r gweithdrefnau canlynol:

- Polisi Tâl
- Polisi Cam-drin Domestig, Trais a Thrais Rhywiol
- Polisi Cydraddoldeb Traws
- Polisi Recriwtio'r Lluoedd Arfog.

gan gydnabod bod y polisïau hyn yn ein galluogi i gryfhau cyfle cyfartal.

Rydym yn parhau i ddarparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant cydraddoldeb i'n gweithlu. Er enghraifft, mae 33 o staff wedi cwblhau hyfforddiant Tuedd Anymwybodol; mynychodd 19 aelod o staff hyfforddiant LGBTQ+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, queer +) a gefnogwyd gan y sefydliad Stonewall; 3 aelod o staff yn mynychu hyfforddiant LGBTQ+ Pride and Prejudice a ddarperir gan Plant yng Nghymru; yn ogystal â chynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu e-Fodiwl arbenigol trwy dîm Datblygu Gweithlu Blaenau Gwent a Chaerffili ar gydraddoldeb ac i gefnogi staff sy'n cynorthwyo pobl â nodweddion gwarchoddedig a gwmpesir gan y Ddeddf Cydraddoldeb. Hefyd, cyflwynodd Tîm Cydlyniant Gorllewin Gwent, ynghyd â Chymorth i Ddiodefwyr, sesiynau Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb arbennig i Aelodau'r Cyngor, a fydd hefyd yn cael eu cyflwyno'r flwyddyn nesaf ar gyfer Aelodau newydd y Cyngor fel pecyn i wasanaethau sy'n gofyn amdanynt.

Mae camau i ehangu ein cyfleoedd hyfforddiant presennol wedi bod ar y gweill dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys datblygu Pecyn Cymorth Hyfforddiant ac Adnoddau Cydraddoldeb cynhwysfawr a fydd ar gael i'r holl staff ym mis Ebrill 2022. Mae'r pecyn cymorth yn siop un stop ar gyfer gwybodaeth cydraddoldeb cyfredol, canllawiau, enghreifftiau o astudiaethau achos, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant anffurfiol a ffurfiol sydd ar gael gan asiantaethau a sefydliadau arbenigol, megis y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ar bynciau cydraddoldeb allweddol.

### **Enghreifftiau o arfer da**

Fe wnaethom lansio bwletin staff wythnosol Dydd Mercher Lles sy'n darparu mynediad at ddata i wasanaethau lles megis ein gwasanaeth Gofal yn Gyntaf, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl a chyfleoedd hyfforddiant ac ati.

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***



### **Camau nesaf**

- Byddwn yn profi a yw ein gweithlu yn rhoi gwerth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ymgysylltu a chynnwys staff yn barhaus a nodi unrhyw feysydd allweddol i'w gwella.
- Byddwn yn adolygu amrywiaeth ein gweithlu gan ddefnyddio data ein gweithlu a lle bo'n briodol yn gweithredu'r gwaith o gyflawni ymgyrchoedd recriwtio cadarnhaol.
- Gweithredu ac adolygu'r Pecyn Cymorth Hyfforddiant ac Adnoddau Cydraddoldeb.
- Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol gyda chynrychiolaeth o'r sefydliad cyfan.

### 3. Amcan Cydraddoldeb

***“Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu”.***

#### **Trosolwg (yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud)**

Mae addysg wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol yn ein [Cynllun Corfforaethol 2018-22](#) ac rydym wedi ymrwymo i 'wella deilliannau, cynnydd a lles disgyblion, yn enwedig ar gyfer ein disgyblion mwyaf abl ac agored i niwed'. Credwn y dylai pawb gael mynediad priodol at gyfleoedd dysgu a'r cymorth sydd ei angen i'w galluogi i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu, gan gydnabod bod dysgu yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwell rhagolygon bywyd.

Ein nod yw sicrhau'r deilliannau dysgu mwyaf posibl i ddisgyblion sy'n dod o dan un, neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig fel y'u nodir yn y Ddeddf, yn enwedig lle nodir bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol.

#### **Cynnydd (beth wnaethon ni)**

Rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd cryf gyda'n hysgolion ac yn darparu cymorth i sicrhau bod y cyngor a'r arweiniad diweddaraf ar gydraddoldeb yn cael eu darparu a'u deall yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'n hamcanion cydraddoldeb strategol ac i ysgolion gael gwell dealltwriaeth o sut maent yn cyfrannu. Er enghraifft, mae pecyn cymorth hyfforddiant ac adnoddau cydraddoldeb ysgolion wedi'i ddatblygu sy'n darparu dolenni i'r canllawiau diweddaraf ynghylch polisiau cydraddoldeb penodol yn ogystal â manylion cyswllt asiantaethau a sefydliadau allweddol a all ddarparu cymorth arbenigol, os oes angen. Hefyd, mae gwybodaeth am gydraddoldeb yn cael ei chynnwys yn rheolaidd ym Mwletin Newyddion Penaethiaid ysgolion (er enghraifft, addewid Cyngor Blaenau Gwent i Dim Hiliaeth Cymru a galwad ar ysgolion unigol i gofrestru).

Cefnogwyd disgyblion Sipsiwn a Theithwyr yn llawn yn ystod COVID-19 ar adeg pan oedd angen darparu addysg yn wahanol er mwyn sicrhau diogelwch pob disgybl. Bu'r Gwasanaeth Addysg a Theithwyr yn gweithio gyda theluloedd i dawelu eu meddyliau a lleddfu pryderon yn ystod y cyfnod anodd hwn a chynigiwyd cymorth pellach i annog plant yn ôl i'r ysgol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys Cynllun Integreiddio ar gyfer y disgyblion Sipsiwn a Theithwyr hynny sy'n cael eu haddysgu gartref yn ddewisol i'w cyflwyno'n raddol yn ôl i'r ysgol uwchradd yn ogystal â pholisi presenoldeb Sipsiwn a Theithwyr i gefnogi cofnodi presenoldeb mewn ysgolion a phecynnau addysg i alluogi ein disgyblion Sipsiwn a Theithwyr i gadw i fyny â'u haddysg wrth deithio. Mae prosiectau eraill yn cynnwys:

- Digwyddiad dathlu dysgu yn 2022/23 a oedd yn cynnwys gweithio gyda phlant Sipsiwn a Theithwyr i ddeall y rhwystrau i ddysgu
- Rhaglen Gelfyddydol achrededig wythnosol i rieni a phlant 11-21 oed
- Grŵp Mam a'i Baban Dechrau'n Deg

Yn ystod 2020 a 2021 ein prif ffocws oedd datblygu cynlluniau cydraddoldeb ysgolion a nodi meysydd allweddol o waith cydraddoldeb i'w datblygu yn 2022 i 2023 a fydd yn arwain at ddeilliannau cydraddoldeb ystyrlon i ddisgyblion. Er enghraifft, cynhaliwyd gweithdy Cynllun Cydraddoldeb Strategol arbennig gyda Thimau Rheoli ysgolion yn ogystal â sesiynau un i un manwl gydag ysgolion unigol i ddeall yr ystod o waith cydraddoldeb sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan ysgolion ac i nodi meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Cafodd yr holl wybodaeth a gasglwyd ei chasglu a'i defnyddio i greu fframwaith cydraddoldeb cryno i ysgolion sy'n cyd-fynd ag amcanion ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac sy'n nodi prosiectau a chamau gweithredu ymarferol y gall ysgolion eu cyflawni.

Mae gwaith pellach yn cael ei wneud gydag ysgolion i ddatblygu mecanweithiau priodol i fonitro ac olrhain cynnydd, megis templed Astudiaeth Achos i nodi unrhyw arfer dda sy'n cael ei chyflwyno mewn lleoliadau ysgol yn ogystal â sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Ysgolion dan arweiniad y Rheolwr Strategol Gwella Addysg.

Mae gwaith penodol hefyd wedi'i wneud mewn ymgynghoriad ag ysgolion i wella'r broses o gofnodi achosion o fwlio drwy'r system ddata "MyConcern" i ddatblygu gwell gwybodaeth am y mathau o faterion sy'n codi, ac fel dull o bennu ymyriadau neu hyfforddiant priodol ar gyfer staff ysgol a disgyblion i fynd i'r afael â materion yn y dyfodol a'u hatal.

Rydym wedi parhau â'n gwaith gyda'n Fforwm Ieuenctid a Phrif Gyngor Plant i rannu gwybodaeth a chynyddu cyfleoedd dysgu ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ogystal â gwella ymwybyddiaeth o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Rydym wedi ymrwmo i gefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni blaenoriaethau sy'n bwysig iddynt, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Eleni mae 12 sesiwn ar-lein Prif Gyngor Plant wedi'u cyflwyno gyda 32 o bobl ifanc yn cymryd rhan a chynhaliwyd 12 sesiwn Fforwm Ieuenctid yn ogystal â sesiynau penodol yn ymwneud â'u blaenoriaeth gyffredinol o lechyd Meddwl (e.e., Positive Body Campaign, lansio campfa i bobl ifanc ac ati).

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi 5 grŵp LGBTQ+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, queer +) ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys grwpiau a sefydlwyd yn yr ysgol, lle mae 104 o bobl ifanc yn mynychu i gael gwybodaeth, siarad am eu teimladau, a chael llais er mwyn eu grymuso i fynegi eu hunain mewn amgylchedd cefnogol. Mae cynlluniau i ehangu'r cymorth hwn i ysgolion cynradd yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r tîm 14+, Gwasanaethau Ieuenctid, Teuluoedd yn Gyntaf a'r Fforwm Ieuenctid wedi gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwibdeithiau ar y cyd a sesiynau pwrpasol sy'n dod â phobl ifanc o ystod o gefndiroedd gwahanol at ei gilydd i rannu profiadau ac archwilio ffyrdd o ddathlu gwahaniaeth.

## Enghreifftiau o arfer da

### Ysgolion sy'n Parchu Hawliau

Mae Pwyllgor y DU ar gyfer UNICEF (UNICEF DU) yn gweithio gydag ysgolion i greu lleoedd diogel ac ysbrydoledig i ddysgu, lle mae plant yn cael eu parchu, eu doniau'n cael eu meithrin, a lle gallant ffynnu. Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RSSA) yn gwreiddio'r gwerthoedd hyn ym mywyd beunyddiol yr ysgol ac yn rhoi'r cyfle gorau i blant fyw bywydau hapus, iach ac i fod yn ddinasyddion cyfrifol, gweithgar.

Mae'r Wobr yn cydnabod cyflawniad ysgol wrth roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r rhaglen RRSA yn uno ystod o flaenoriaethau addysgol ym mhob awdurdodaeth yn y DU; dimensiwn byd-eang, ac agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu, felly mae'n cefnogi ysgolion i ymgorffori hawliau dynol plant yn eu hethos a'u diwylliant. Mae'n cydnabod cyflawniad wrth roi [UN Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CRC\)](#) wrth galon arfer ysgol i wella lles a helpu pob plentyn a pherson ifanc i wireddu eu potensial.

Mae'r Wobr yn seiliedig ar egwyddorion tegwch, urddas, peidio â gwahaniaethu, a chyfranogiad. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Wobr wedi adrodd am effaith gadarnhaol ar berthnasoedd a lles, gan arwain at ddysgu ac ymddygiad gwell, safonau academaidd gwell a llai o fwlio, cydlyniant cymunedol a datblygu cynaliadwy.

Mae ysgolion ym Mlaenau Gwent yn ymdrechu i alinio blaenoriaethau lles ar gyfer disgyblion, staff, a chymuned eu hysgol â'r erthyglau (fel y nodir isod) i sicrhau bod yr egwyddorion sy'n Parchu Hawliau yn cael eu deall a'u gweithredu.

Hyd yma mae 1 ysgol wedi ennill y Wobr Aur, 3 ysgol yn gweithio tuag at Aur, 10 ysgol wedi ennill y wobwr efydd a/neu arian, 5 ysgol yn gweithio tuag ati tra bod nifer wedi mynegi diddordeb i weithio tuag at hyn ar ôl COVID-19. Mae'n bwysig nodi bod pob ysgol yn cydgysylltu Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ac egwyddorion Addysg Seiliedig ar Werthoedd p'un a ydynt yn gweithio tuag at y dyfarniad ai peidio. Mae hyn yn helpu i ddatblygu gan ddefnyddio Hawliau a Gwerthoedd fel thema graidd lle defnyddir Hawliau a Hawliau Iaith ar draws y cwricwlwm.



## Timau Gofalwyr Ifanc

Cynhaliodd Prosiect Gofalwyr Ifanc Blaenau Gwent, gyda chefnogaeth Teuluoedd yn Gyntaf, ddigwyddiad ymgynghori gyda gofalwyr ifanc 23 Tachwedd 2021 i ddarganfod sut maen nhw'n teimlo; pa gefnogaeth fyddai'n eu helpu; sut y gellir clywed eu lleisiau; ac i godi ymwybyddiaeth am Lwyfan y Fforwm Ieuenctid a Chynllun Cerdyn Adnabod Cenedlaethol Gofalwyr Ifanc. Ers lansio'r prosiect ym mis Ebrill 2021, mae 64 o bobl ifanc wedi derbyn cerdyn ac mae 85 o ofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi.


Mae'r tîm cefnogi Gofalwyr Ifanc hefyd wedi datblygu ffilm i godi ymwybyddiaeth am y cyswllt gofalwyr ifanc sydd i'w weld yma

<https://learning.wales.nhs.uk/login/index.php?lang=cy>

## Rhai o ofalwyr ifanc BG



## Prosiect Plannu Gofalwyr Ifanc



## Gofalwyr ifanc (Nadolig)



## Astudiaeth Achos ysgol

### Astudiaethau Achos Cydraddoldeb – Shine a light on your work

Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Cwm

#### 1. Gwybodaeth Gefndir

Plentyn Pwylaidd ym Mlwyddyn 6 a oedd yn swil iawn ac a fyddai ond yn siarad Saesneg â grŵp bach iawn o blant (2 neu 3), er ei bod yn gallu deall Saesneg.

#### Yr hyn a wnaethom

Trefnwyd gwasanaeth gyda chefnogaeth GEMS a chafodd y disgybl gyfle i ddathlu ei gwlad, rhannu traddodiadau ac arferion.

#### 2. Sut y gwnaethom ni

Cefnogaeth gan Gems – fe wnaethom ddefnyddio llawer o gymhorthion gweledol ac annog y plant yn yr ysgol i ddweud rhai ymadroddion mewn Pwyleg, er mwyn iddynt allu deall pa mor anodd oedd hi i'r disgybl integreiddio.

#### 3. Beth oedd y canlyniadau?

Daeth y disgybl yn fwy hyderus i siarad â disgyblion oedd eisiau gwybod mwy am ei gwlad. Gwnaeth y disgybl yn dda yn y canlyniadau diwedd cyfnod wrth iddi ddechrau siarad Saesneg ac roedd yr athrawes yn gallu asesu ei gallu i siarad a gwrando. Roedd hyn hefyd yn galluogi'r plant eraill i ddeall pa mor anodd oedd hyn ac yn eu hannog i ddysgu am ddiwylliannau eraill.

#### 4. Y camau nesaf os yn berthnasol

Mae'r disgybl wedi trosglwyddo'n dda i addysg uwchradd ac mae'n fwy hyderus.

## Prosiect Sipsiwn-Teithwyr

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***



### Camau nesaf

- Sefydlu mecanwaith i ysgolion fonitro cynnydd o ran cyflwyno cynlluniau cydraddoldeb ysgolion; sefydlu rhwydwaith cydraddoldeb ysgolion; a chwblhau prosesau a phrotocolau ar gyfer cofnodi achosion o fwlio drwy “MyConcern” ac adolygu eu heffeithiolrwydd.
- Ystyried canfyddiadau o Adroddiad Cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ‘A yw Cymru’n Decach?’ ynghylch bylchau mewn deilliannau dysgu ar gyfer disgyblion a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb a chynnal ymchwil i bennu a yw’r canfyddiadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr Blaenau Gwent ac os felly, pa gamau sydd angen eu cymryd i gefnogi gwelliannau.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau eraill i ehangu Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Blaenau Gwent i sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu huchafu a bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed.
- Parhau i gefnogi datblygiad gwaith prosiect ar draws 2022/23 ar gyfer plant Sipsiwn a Theithwyr.

#### 4. Amcan Cydraddoldeb

*“Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol”*

##### **Trosolwg (yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud)**

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi ymrwymo i Nodau Cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o gefnogi 'Cymru fwy cyfartal' a 'Cymru o Gymunedau Cydlynol'.

Gan weithio mewn partneriaeth â Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Lleol, rydym yn parhau i ddarparu ystod o brosiectau a mentrau sy'n hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol; annog a dathlu amrywiaeth; a dod â phobl a chymunedau lleol ynghyd i gryfhau ysbryd cymunedol a gwydnwch.

##### **Cynnydd (beth wnaethon ni)**

Llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nifer o ymgyrchoedd cydraddoldeb a chydlyniant Rhyngwladol a Chenedlaethol trwy gyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chyflwyno mentrau penodol gyda staff, pobl leol a chymunedau a rhanddeiliaid (er enghraifft, Fforwm Ieuenctid, Panel Dinasyddion ac ati). Mae enghreifftiau o'r ymgyrchoedd a gefnogwyd yn cynnwys Diwrnod Cofio'r Holocaust, Show Racism the Red Card, Mis Hanes LGBTQ+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, queer +), Pride, Diwrnod Rhuban Gwyn (ymgyrch i roi terfyn ar drais domestig), Mis Hanes Pobl Dduon a Diwrnod Rhyngwladol y Plant.

Ers 2016, mae Cyngor Blaenau Gwent wedi cefnogi Rhaglen Cynllun Ailsefydlu'r DU, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, trydydd sector a phreifat, i ddarparu pecyn cymorth cyfannol. Arweiniodd y gwaith cychwynnol hwn at gynorthwyo 4 teulu o Syria (20 unigolyn) a ffodd o Syria.

Ym mis Mai 2021, penderfynwyd parhau â'n cefnogaeth drwy gymryd rhan yn Rhaglen Adsefydlu Afghanistan a'r Cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches Ehangach fel peilot. Felly, cynnig paratoi 2 eiddo arall ar gyfer llely. Mae cymryd rhan yn y Cynllun Gwasgaru Ehangach yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn Genedl Noddfa.

Rydym wedi gweithio'n effeithiol gydag ystod o grwpiau cymunedol lleol i'w galluogi i hyrwyddo cynhwysiant, yn ogystal â mwy o ymwybyddiaeth o gymorth pellach a chyfleoedd ariannu i gefnogi mentrau adfer COVID-19 a lles, yn seiliedig ar ganfyddiadau ein Hasesiad o'r Effaith ar y Gymuned. Er enghraifft, gan weithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, fe wnaethom gefnogi datblygu a chyflwyno rhaglen cyllidebu cyfranogol Dewis Cymunedol, Llais Cymunedol. Arweiniodd hyn at ddyfarnu £252,393 o arian i 40 o grwpiau cymunedol sy'n darparu prosiectau lleol.

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***

Rydym hefyd wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, CMGG, ac lechyd Cyhoeddus Cymru i wneud y mwyaf o arian i fynd i'r afael ag effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd. Lanswyd y gronfa Unigrwydd ac Arwahanrwydd ym mis Rhagfyr 2021 gan alluogi grwpiau cymunedol lleol i ailymgynnull yn dilyn y pandemig a chefnogi'r gymuned ehangach.

Darparwyd gwasanaethau diogelwch yn y cartref a thân i ddioddefwyr trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig; a gwnaethom barhau i gyflwyno mentrau sy'n amddiffyn, cefnogi a grymuso'r rhai sy'n agored i gael eu hecsbloetio gan droseddwyr sy'n ymwneud â chefnogi eithafiaeth dreisgar neu derfysgaeth yn ogystal â masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern.

### **Enghreifftiau o arfer da**

#### **Digwyddiad Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb mewn partneriaeth â Thîm Cydlyniant Cymunedol Gwent**




Diwrnod Rhuban Gwyn

# Gwent White Ribbon Day 2021

#30Challenge 

Llais Cymunedol, Dewis Cymunedol – Clwb Nofio Dyfrgwn Abertyleri (offer arbennig)



## Camau nesaf

- Parhau i gefnogi ymgyrch cydraddoldeb cenedlaethol (e.e., Mis Hanes Pobl Dduon, Cofeb yr Holocaust)
- Darparu hyfforddiant Cydlyniant Cymunedol (e.e., Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb) ar gyfer y Tîm Arwain Corfforaethol, Aelodau a staff.
- Parhau i ddarparu cynrychiolaeth a Rhwydweithiau Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth, dysgu ac arfer da.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Adsefydlu Afghanistan a chynllun peilot y Cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches Ehangach.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen cyllidebu cyfranogol Dewis Cymunedol, Llais Cymunedol 2022-23 i gynorthwyo adferiad COVID-19 a gwella lles ardal.
- Gweithio gyda'n partneriaid, ôl-COVID-19, i gefnogi ailadeiladu darpariaethau cymunedol sy'n cefnogi gweithgareddau cydlyniant cymunedol.

## 5. Amcan Cydraddoldeb

***“Byddwn yn sicrhau bod cyfranogiad ystyrllon gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy’n cynrychioli eu buddiannau”***

### **Trosolwg (yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud)**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyfranogiad ystyrllon sy’n galluogi pobl, cymunedau a rhanddeiliaid i gael llais, a chael cyfleoedd gwirioneddol i gydweithio â ni i helpu i wella’r modd y darperir ein gwasanaethau.

Fel y nodir yn Strategaeth Ymgysylltu Corfforaethol y Cyngor 2018-23, rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl sy’n dod o dan un, neu fwy o’r nodweddion gwarchoddedig, yn cael cyfleoedd ystyrllon i ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy’n effeithio arnynt a chyflawni hyn drwy gymhwyso’r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd a’r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

### **Cynnydd (beth wnaethon ni)**

Ym mis Mawrth 2020, cafodd pandemig byd-eang COVID-19 effaith enfawr ar gymunedau lleol yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn y cyfnod clo er mwyn cadw pawb yn ddiogel yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn golygu nad oedd mwyafrif sylweddol o grwpiau cymunedol, rhwydweithiau a fforymau bellach yn gallu cyfarfod yn bersonol a bu’n rhaid archwilio dulliau eraill o ymgysylltu megis llwyfannau digidol ar-lein fel Zoom neu Microsoft Teams. Roedd addasu i’r ffyrdd newydd hyn yn heriol am sawl rheswm, megis materion hygrychedd, seiberddiogelwch a gallu darparu gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ar y pryd. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cyflwyno cyfleoedd newydd i ymgysylltu ag amrywiaeth o wahanol bobl a oedd wedi’u cynnwys yn ddigidol ac a oedd yn gweld cyfranogiad trwy ddulliau personol yn fwy heriol. Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn cydnabod pwysigrwydd myfyrio a phrofi sut olwg sydd ar ddyfodol ‘cynnwys ystyrllon’ i bawb a sicrhau bod y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig yn gallu parhau i gael llais a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Fel rhan o’n camau nesaf, yn ystod 2022/23, byddwn yn ystyried sut y gallwn ailgynnull yn ddiogel fforymau personol fel ein rhwydwaith cydraddoldeb ‘Lleisiau ein Cymoedd’ ond byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ymgorffori’r defnydd o dechnoleg i gefnogi pobl eraill i gymryd rhan fel eu dull dewisol o gymryd rhan.

Mae gwaith cychwynnol ar y gweill i adolygu a gwella Panel Dinasyddion presennol Blaenau Gwent fel ei fod yn addas i’r diben ac yn gynrychioliadol o’n hardal leol. Y Panel Dinasyddion yw’r panel sy’n rhoi cyfle i bobl leol yn ogystal â rhanddeiliaid gymryd rhan a dweud eu dweud ar faterion lleol, newidiadau i wasanaethau neu benderfyniadau a wneir gan y Cyngor neu wasanaethau cyhoeddus eraill, sy’n bwysig iddynt hwy neu’r ardal leol. Er enghraifft, mae

aelodau'r Panel Dinasyddion yn aml yn cymryd rhan mewn arolygon, cyfweiliadau manwl, arolygon ffôn, mynychu grwpiau ffocws neu ddiwyddiadau ymgysylltu yn wirfoddol.

Yn ystod 2021, fe wnaethom gefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i gyflawni ei raglen gynnwys yn lleol yn ogystal ag yn rhanbarthol i gefnogi datblygiad Asesiad Llesiant Gwent yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, i asesu'r hyn sy'n bwysig iddynt nawr ac yn y dyfodol.

Mae Blaenau Gwent yn cefnogi datblygiad arolwg Llesiant Gwent rhanbarthol a ddarparwyd mewn dros 10 iaith yn ogystal â darpariaeth leol. Er ei bod yn anniogel i ymgysylltu'n bersonol, oherwydd y pandemig, cyfranogodd 402 o bobl o Flaenau Gwent, gan gynnwys fforymau a rhwydweithiau allweddol (fel y Rhwydwaith 50+, Fforwm Ieuenctid), sy'n dyst i'r gwaith partneriaeth cryf sydd ar waith rhwng partneriaid sector cyhoeddus a thrydydd sector. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i ddatblygu'r cam nesaf, i'w gyflawni yn ystod Haf 2022, i gefnogi datblygiad Cynllun Llesiant Gwent gyda chynlluniau i ddarparu cymysgedd o gyfleoedd ymglymiad personol a digidol.

Rydym wedi parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r Fforwm Ieuenctid a Rhwydwaith Ieuenctid Blaenau Gwent i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan, y tu allan i drefniadau cyfarfodydd traddodiadol, sydd wedi galluogi amrywiaeth o bobl ifanc o gefndiroedd gwahanol i gymryd rhan a chefnogi'r Fforwm Ieuenctid i gyflawni ei flaenoriaethau iechyd meddwl, gweithgaredd corfforol, bwlio a newid hinsawdd ac ati. Er enghraifft, cefnogodd y Fforwm Ieuenctid Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan i ddatblygu ei wasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc a gwefan newydd '[Melo Cymru](#)' ac enillodd 'Ffilm Wyddonol ac Addysgol Orau' am eu ffilm am Newid Hinsawdd yng Ngwobrau Ffilm Cenedlaethol Pobl Ifanc.

Fel awdurdod, mae ein Tîm Trawsnewid Strategol wedi cynnal nifer o brosiectau ymchwil defnyddwyr peilot o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, Glanhau Strydoedd a Chynllunio i'n helpu i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu ar gyfer pobl leol, cymunedau a rhanddeiliaid. Rydym wedi cael mewnwelediadau gwerthfawr drwy'r gwaith hwn sydd wedi ein helpu i ddeall sut mae'r gymuned yn cael mynediad at gymorth a gwybodaeth a pha welliannau y gellir eu gwneud i sicrhau ei fod yn hygyrch i'n holl gwsmeriaid, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Parhaodd Gwasanaeth Ymgysylltu â Gofalwyr sy'n Oedolion BG i ddarparu pecyn cymorth cyfannol yn ystod y pandemig megis Hawliau Gofalwyr, Asesiadau Gofalwyr, Budd-daliadau, Cyflogaeth a Sgiliau yn ogystal â chymorth pwrpasol gan sefydliadau ac asiantaethau arbenigol (e.e., Parkinson, Dementia, Camddefnyddio Sylwedddau, Cam-drin Domestig ac ati) Roedd hyn yn cynnwys:

- Rhoi cyngor a chymorth i 29 o ofalwyr



- Darparu gwybodaeth allweddol i 40 o ofalwyr
- Darparu 115 o apwyntiadau
- Mynychu 37 o gyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol

### **Enghreifftiau o arfer da**

Rydym wedi hyrwyddo Pecyn Cymorth Cyfathrebu Gwrth-Oedraniaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn yn fewnol ac ar draws ein rhwydweithiau partner.

### **Tîm Cefnogi Oedolion sy'n Ofalwyr**

#### **Dyfyniadau gan y rhai a gefnogwyd**

---

*“Mae mor hyfryd siarad â chi, diolch yn fawr am alw a gofyn sut ydw i”*

*“Diolch yn fawr iawn Angela. Ni allaf gredu fy mod wedi crio ond nid wyf erioed wedi agor i fyny i rywun am sut ydw i'n teimlo fel 'na o'r blaen. Mae wedi bod mor dda i gael sgwrs gyda rhywun nad yw'n deulu. Rwyf nawr yn sylweddoli cymaint yr wyf wedi gorfod delio ag ef ac yn parhau i ddelio ag ef. Mae wedi fy atgoffa fy mod wedi bod yn gryf. Diolch am y cyfle i siarad mor agored gyda chi.”*

*“Mae hi wedi bod mor dda siarad â rhywun sydd wedi gwranddo arna i ac i mi fod mor agored am sut rydw i wedi bod yn teimlo.”*

*“Mae wedi bod mor dda siarad â chi a chael sicrwydd ynghylch fy sefyllfa. Diolch yn fawr iawn am wrando a rhoi manylion i mi am gael mynediad at gefnogaeth pe bai ei angen arnaf mewn perthynas â fy ngŵr.”*

*“Diolch yn fawr iawn am eich galwad heddiw, mae wedi bod o gymorth mawr i mi fod yn agored am y cyfan. Rydw i eisiau gallu gofalu am Mam a gwybod ei bod hi'n ddiogel ond rydw i'n teimlo wedi blino'n lân. Diolch am wrando arna i heddiw – mae'n golygu llawer.”*

*“Dw i'n teimlo'n sionc y bore yma. Rydw i wedi bod mewn lle tywyll iawn a dydw i erioed wedi cael cefnogaeth fel eich un chi o'r blaen, mae wedi fy helpu'n fawr.”*

## **Dyfyniadau gan feddygfeydd Meddygon Teulu am y gwaith**

---

“Mae’r gwasanaeth a’r gefnogaeth rydych chi’n eu darparu i’r practis a’r cleifion yn rhagori ar ddisgwyliadau uchel. Mae’r cyswllt gwasanaeth sydd gennych yn gryf ac rydych bob amser yn ein diweddarau ac yn ein helpu gyda chyngor ac adborth adeiladol. Mae eich presenoldeb yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn dda iawn a hoffem ddiolch i chi am y gwaith da yr ydych yn ei wneud.”

(Gurninder Kaur, PM, Meddygfa Glyn Ebwy)

---

## **Astudiaeth Achos**

---

Mae CJ yn ofalwr i’w wraig, a oedd ar ddechrau’r cymorth yn cael triniaeth ar gyfer canser prin, ac sydd bellach yn anffodus yn angheuol (er nad ydynt yn gwybod hyn). Mae’r cwpl yn eu 50au ac mae CJ i ffwrdd o’r gwaith oherwydd salwch ar hyn o bryd – yn rhannol oherwydd ei wraig ac yn rhannol oherwydd bod yn dyst i ddamwain angheuol yn y gwaith. Mae hefyd wedi colli ei rieni, ffrind, ewythrod, ci a sibling dros y 18 mis diwethaf ac wedi prynu tŷ a’i drosi i’w wraig.

Cyfeiriwyd CJ ataf gan y Meddyg Teulu ym Meddygfa Brynmawr a hefyd gan y Gwasanaeth Ymweliadau Cartref Meddygon Teulu a buom yn trafod yr achos yn y tîm amlddisgyblaethol cyn i mi ei ffonio, mae’n ddyn balch iawn nad yw’n siarad yn agored am ei deimladau neu ei fod angen help, ond wedi cysylltu â’r feddygfa gan ei fod yn teimlo mor isel. Mae lechyd Meddwl Sylfaenol hefyd yn cefnogi.

Pan siaradais i gyda CJ am y tro cyntaf, roedd yn ddiolchgar iawn ac yn dweud o hyd na allai gredu’r gefnogaeth a gynigir iddo ac nad oedd wedi ei ddisgwyl, fodd bynnag roedd yn gyndyn o dderbyn y gefnogaeth gan ei fod yn teimlo bod yna bobl mewn sefyllfa waeth nag ef, ac roedd angen sicrwydd bod ganddo hawl i’r cymorth.

Dros y misoedd rydw i wedi ei ffonio unwaith bob pythefnos ar gyfartaledd ac mae CJ wedi agor i fyny ynghylch faint mae’n ei chael hi’n anodd. Mae hyn yn bennaf oherwydd ei wraig gan ei fod yn ofnus am y dyfodol ac yn casáu ei gweld mewn poen, ac yn rhannol oherwydd ei fod yn colli gweithio cymaint. Mae gan CJ angerdd i helpu pobl ifanc cythryblus yn eu harddegau a phan fydd yn teimlo’n isel byddwn yn treulio amser yn siarad am hyn a’i obeithion yn y dyfodol i symud i’r maes hwn o waith. Fe wnes i awgrymu a chysylltu â mudiad lleol (gyda’i ganiatâd) a’i ffoniodd ef wedyn a threfnu iddo wirfoddoli gyda phobl ifanc yn eu harddegau. Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn iddo ac wedi rhoi rhywbeth arall iddo ganolbwyntio arno, hyd yn oed os mai dim ond am ychydig oriau yn ogystal â lleihau ei unigedd. Cyfeiriais ef hefyd at Gyrfa Cymru y mae wedi cysylltu â nhw.

Mae CJ wedi bod yn agored am ei unigedd, mae ei wraig yn treulio'r rhan fwyaf o'i hamser yn y gwely, mae ei rieni a'i ffrind gorau wedi marw ac mae'n brifo oherwydd bod llawer o ffrindiau eraill wedi rhoi'r gorau i gysylltu ag ef. Mae'n dweud yn gyson mai fi yw'r unig berson y mae'n teimlo y gall siarad gyda, fodd bynnag er mwyn peidio â chreu dibyniaeth rydym yn trafod opsiynau eraill.

Mae pob galwad yn para o leiaf awr a hanner, ar adegau maent wedi para dros ddwy awr. Rwy'n gwranddo'n astud ar dôn llais CJ, yn aml pan fyddaf yn galw gyntaf bydd yn swnio'n fflat iawn, felly rydym yn sgwrsio am ychydig, yna yn trafod unrhyw faterion sensitif, yna'n cael sgwrs gyffredinol am unrhyw beth a phopeth, nes i mi glywed ei fod mewn gwell lle. Ar adegau rwyf wedi mynd i'r afael â'i iechyd meddwl os byddaf yn clywed ei fod yn isel iawn a'i annog i ffonio'r feddygfa a threfnu apwyntiad gyda'r gweithiwr iechyd meddwl/PWP yno (fe wnes i hysbysu'r Meddyg Teulu yn y tîm amlddisgyblaethol am ei hwyliau isel) a bu'n rhaid i mi ofyn yn ddiweddar a yw'n meddwl am hunanladdiad ar ôl ychydig o sylwadau a wnaeth.

Mae CJ wedi bod yn gyndyn iawn i dderbyn unrhyw gymorth budd-dal ac rydym wedi siarad sawl gwaith am hyn gan fod ei dâl salwch bellach wedi gostwng i hanner tâl ar ôl 12 mis. Mae'n canolbwyntio ar werthu tŷ a brynodd ac a fu'n ei ailwneud yn flaenorol, yn hytrach na derbyn budd-daliadau, ond mae mewn perygl o redeg allan o gynilion cyn gwerthu'r tŷ. Rydym wedi trafod y manteision a'r anfanteision ac mae CJ yn ymwybodol o'r risgiau a'r canlyniadau, fel y gall wneud ei ddewis gwybodus ei hun. Rwyf wedi ei gyfeirio at dîm budd-daliadau MacMillan yn Felindre (lle mae'n mynd yn rheolaidd).

Rwyf hefyd wedi cysylltu â'r Meddyg Teulu a'r feddygfa gan fod gwrthdaro ynghylch ei alwadau i'r feddygfa. Eglurais fod CJ yn ofnus iawn a gofynnais iddynt gyfathrebu'n uniongyrchol ag Ysbyty Felindre yn hytrach na bod CJ yn "y canol" gan ei fod yn ychwanegu at ei straen fel gofalwr ac nid yw bob amser yn deall y termau meddygol, a dywedodd y Meddyg Teulu y bydd yn gwneud hyn.

### **Llun - gofalwyr yn derbyn eu bagiau rhodd**



***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***

## Tîm Ymgysylltu Gofalwyr sy'n Oedolion BG

 <p>Carers Lead Officer <b>Tania Hooper</b> 07773 202112</p>	 <p>Carers Engagement Officer <b>Angela James</b> 07843 371574 Tredrege/Edlow Vale/Beaufort/ Cwm area</p>	 <p>Carers Engagement Officer <b>Verity Lewis</b> 07843 371576 Brynmawr/Sialna/Abertillery/ Six Bells/Aberberg/Swydryd area</p>
---	--	---

**Carers Support Team**  
**Tîm Cefnogi Gofalwyr**

## Fforwm Ieuentid

[Ymgyrch Delwedd Corff Cadarnhaol Fforwm Ieuentid Blaenau Gwent](#)



*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

[Charlotte Clark – Maer Ieuenctid Blaenau Gwent 2019-2020](#)



[Darcey Howells – Mae Ieuenctid Blaenau Gwent 2020-2021](#)



***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***

## Prif Gyngor Plant – Trydariat gan Ysgol Gynradd Willowtown



**Ffilm y Dirprwy Faer, Mara Moruz, i annog ysgolion i gofrestru ar gyfer [Ymgyrch "Let's Go Zero"](#)**



#### **Camau nesaf**

- Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i roi Cam 2 ei raglen ymglymiad ar waith yn lleol, gan ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, i gefnogi datblygiad Cynllun Llesiant Gwent.
- Ail-gynnull rhwydwaith cydraddoldeb "Lleisiau Ein Cymoedd" yn ddiogel yn ogystal â chefnogi fforymau allweddol eraill i wneud hynny (e.e., Rhwydwaith 50+)
- Cynnal adolygiad o Banel Dinasyddion Cyngor Blaenau Gwent a datblygu unrhyw feysydd i'w datblygu, cyn eu dyrchafu.
- Parhau i fwrw ymlaen â blaenoriaethau plant a phobl ifanc yn ogystal â chefnogi datblygiad Rhwydwaith Ieuenctid amrywiol sy'n galluogi pawb i gymryd rhan a chael llais.
- Sicrhau bod cwsmeriaid sy'n dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn cael eu hystyried wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth ac ymchwil defnyddwyr.

## 6. Amcan Cydraddoldeb

***“Byddwn yn ymdrechu i fynd i’r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig”***

### **Trosolwg (yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud)**

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r 'Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol', fel rhan o'n Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2020. Fel Cyngor rydym yn llwyr gefnogi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi drwy sicrhau bod unrhyw benderfyniadau mawr yn cael eu gwneud am y ffordd rydym yn cynllunio neu ddarparu ein gwasanaethau, mewn meysydd fel Addysg, Iechyd a Thai, yn ystyried anghenion y rhai *“sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol na phobl eraill yn yr un gymdeithas”* (Llywodraeth Cymru).

Gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol byddwn yn cynnal gwaith ymchwil a dadansoddi i ddeall sefyllfa economaidd-gymdeithasol Blaenau Gwent yn ogystal â chryfhau ein prosesau gwneud penderfyniadau drwy ddatblygu proses Asesu Effaith Integredig newydd.

### **Cynnydd (beth wnaethon ni)**

Adolygwyd ein proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb blaenorol a datblygwyd proses Asesu Effaith Integredig newydd (gan gynnwys canllawiau; templed sgrinio; templed asesiad llawn) sydd wedi'i hymgorffori fel rhan o'n trefniadau Adrodd Corfforaethol presennol.

Cynhaliwyd sesiynau briffio gyda'r Tîm Arwain Corfforaethol, Aelodau ac Uwch Reolwyr i'w hysbysu o'r broses newydd a chynyddu ymwybyddiaeth o sut mae effeithiau economaidd-gymdeithasol i'w hystyried fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau strategol yn ogystal â chynnwys mesurau i liniaru effaith, pan fo'n briodol.

Cwblhawyd sawl Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i ddeall effeithiau pandemig COVID-19 ar gyfer grwpiau allweddol, megis Pobl Ifanc, Teuluoedd â Phlant Ifanc, Pobl ag Anableddau Dysgu, Pobl Hŷn, a'r Lluoedd Arfog, a lle'r oedd materion cydraddoldeb wedi dyfnhau. Tynnwyd yr asesiadau o ystod o ymchwil Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol, gan gynnwys data a gwybodaeth economaidd-gymdeithasol (e.e., Canolfan Cyngor ar Bopeth; Budd-daliadau Tai; defnydd Banc Bwyd ac ati). Defnyddiwyd y wybodaeth a gafwyd i lywio ein proses Cynllunio ar gyfer Adferiad a Chynllun Corfforaethol y dyfodol.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i nodi bylchau o ran cefnogi'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol trwy gyflawni rhaglenni a phrosiectau partner allweddol, megis Cymunedau am Waith ac Elite



Employment sy'n helpu pobl, wedi'i gefnogi gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, gydag anghenion ychwanegol i gyflogaeth.

#### **Camau nesaf**

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau ein bod yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i wella prosesau gwneud penderfyniadau a chymryd camau i wneud unrhyw addasiadau neu welliannau angenrheidiol (e.e. hyfforddiant pellach, canllawiau gwell ac ati).
- Parhau i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a sefydliadau eraill i leihau anghydraddoldeb canlyniadau i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Camau nesaf a Chynlluniau Gweithredu 2022-23

Mae ein hadroddiad blynyddol wedi tynnu sylw at nifer o'r llwyddiannau niferus rydym wedi'u gwneud tuag at gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a chodi proffil yr agenda cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud o hyd i unioni anghydraddoldeb canlyniadau i'n cymunedau lleol, ein staff, a'n rhanddeiliaid, sydd bellach yn bwysicach fyth ers pandemig byd-eang COVID-19, ochr yn ochr ag effeithiau eraill sy'n deillio o ffactorau allanol y tu hwnt i'n rheolaeth.

Byddwn yn parhau i ymdrechu i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes a chyflawni arfer da, tra'n cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru a'r Nodau Cenedlaethol o ddod yn 'Gymru Fwy Cyfartal' ac yn 'Gymru o Gymunedau Cydlynol'. Gan edrych ymlaen at 2022-23, mae gwaith paratoi ar y gweill i gefnogi sawl maes o waith cydraddoldeb newydd megis Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru; Cynllun Gweithredu LGBTQ+ (lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, queer+) ac Archwiliad Coffáu Cenedlaethol Cymru [Archwiliad o goffáu yng Nghymru](#) yn ogystal â diwygiadau posibl i bolisi Cenedlaethol y DU megis y Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae rhai o'r camau allweddol y bwriadwn eu cymryd fel rhan o'n Cynllun Gweithredu 2022-23 yn cynnwys:

- Adolygu effeithiolrwydd y broses Asesu Effaith Integredig newydd a gweithrediad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar draws y sefydliad i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o gydraddoldeb.
- Sefydlu mecanwaith i ysgolion fonitro cynnydd cyflwyno cynlluniau cydraddoldeb ysgolion.
- Datblygu a gweithredu pecyn Rhaglen Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Adnoddau sydd ar gael i'r sefydliad cyfan (gan gynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol a phwrpasol).
- Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i roi Cam 2 ei raglen ymglymiad ar waith yn lleol, gan ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, i gefnogi datblygiad Cynllun Llesiant Gwent.
- Ailsefydlu a chryfhau rhwydweithiau ymgysylltu presennol yn ogystal â sefydlu cyfleoedd newydd i bobl gymryd rhan (e.e., Llesiau ein Cymoedd, Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol, Rhwydwaith Pobl Ifanc ac ati)

I gael rhagor o wybodaeth, gweler [Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Cynllun Gweithredu 2022-23](#)

[Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Cynllun Gweithredu 2022-23](#)

Amcan	Cam Gweithredu	Pryd
<p><b>Amcan Cydraddoldeb 1 –</b></p> <p>Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i godi proffil yr agenda cydraddoldeb ar draws y sefydliad a'i wreiddio fel “busnes fel arfer”, wedi'i gefnogi drwy gyflawni ein Cynllun Gweithredu 2022-23 a fydd yn cael ei fonitro a'i adolygu drwy drefniadau cynllunio busnes y Cyngor.</li> </ul>	2022-23
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod y sefydliad yn cael y canllawiau a'r cymorth diweddaraf, gan gynnwys rhannu arfer da, i gyflawni ei Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, gan gynnwys ymgysylltiad parhaus timau arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol a chefnogaeth barhaus i ymgyrchoedd cydraddoldeb Cenedlaethol a Rhanbarthol.</li> </ul>	2022-23

***Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg***

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu effeithiolrwydd y broses Asesu Effaith Integredig newydd a gweithrediad y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau'r canlyniadau cydraddoldeb gorau posibl.</li> <li>• Sicrhau bod data a gwybodaeth am gydraddoldeb, megis canfyddiadau'r Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, yn hygyrch i gefnogi gwell prosesau gwneud penderfyniadau sefydliadol.</li> </ul>	<p>Ebrill 2022</p> <p>2022-23</p>
<p><b>Amcan Cydraddoldeb 2 -</b></p> <p>Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn profi a yw ein gweithlu yn rhoi gwerth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ymgysylltu a chynnwys staff yn barhaus a nodi unrhyw feysydd allweddol i'w gwella.</li> <li>• Byddwn yn adolygu amrywiaeth ein gweithlu gan ddefnyddio data ein gweithlu a lle bo'n briodol yn gweithredu'r gwaith o gyflawni</li> </ul>	<p>2022-23</p> <p>2022-23</p>

	<p>ymgyrchoedd recriwtio cadarnhaol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu ac adolygu'r Pecyn Cymorth Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Adnoddau.</li> <li>Byddwn yn sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Corfforaethol gyda chynrychiolaeth o'r sefydliad cyfan.</li> </ul>	<p>2022-23</p> <p>Mehefin 2022</p>
<p><b>Amcan Cydraddoldeb 3 -</b></p> <p>Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu mecanwaith i ysgolion fonitro cynnydd cyflwyno cynlluniau cydraddoldeb ysgol.</li> <li>Sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb i ysgolion.</li> <li>Datblygu prosesau a phrotocolau ar gyfer cofnodi digwyddiadau bwlio mewn ysgolion trwy "MyConcern" a monitro ac adolygu ei effeithiolrwydd.</li> </ul>	<p>Ebrill 2022</p> <p>Medi 2022</p> <p>2022-23</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ystyried canfyddiadau o Adroddiad Cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ‘A yw Cymru’n Decach?’ ynghylch bylchau mewn deilliannau dysgu ar gyfer disgyblion a ddiogelir gan y Ddeddf Cydraddoldeb a chynnal ymchwil i bennu a yw’r canfyddiadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr Blaenau Gwent ac os felly, pa gamau sydd angen eu cymryd i gefnogi gwelliannau.</li> <li>• Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac asiantaethau eraill i barhau i ehangu Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Blaenau Gwent i sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu huchafu a bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed.</li> <li>• Parhau i weithio gyda grwpiau cydraddoldeb plant a phobl ifanc (e.e., LGBTQ+ (lesbiaidd, hoyw,</li> </ul>	<p>2022-23</p> <p>2022-23</p> <p>2022-23</p>
--	---	--

	deurywiol, trawsrywiol, queer+), Grŵp Gofalwyr Ifanc) a chefnogi datblygiad grwpiau amrywiaeth a chynhwysiant newydd.	
<b>Amcan Cydraddoldeb 4-</b>  Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gefnogi ymgyrch cydraddoldeb cenedlaethol (e.e., Mis Hanes Pobl Dduon, Cofeb yr Holocaust)</li> </ul>	2022-23
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu hyfforddiant Cydlyniant Cymunedol (e.e., Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb) ar gyfer y Tîm Arwain Corfforaethol, Aelodau a staff.</li> </ul>	2022-23
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i ddarparu cynrychiolaeth a Rhwydweithiau Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth, dysgu ac arfer da.</li> </ul>	2022-23
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Adsefydlu Afghanistan a</li> </ul>	2022-23

	<p>chynllun peilot y Cynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches Ehangach.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen cyllidebu cyfranogol Dewis Cymunedol, Llais Cymunedol 2022-23 i gynorthwyo adferiad COVID-19 a gwella lles ardal.</li> <li>• Gan weithio gyda'n partneriaid, ar ôl COVID-19, cefnogi'r gwaith o ailadeiladu darpariaethau cymunedol sy'n cefnogi gweithgareddau cydlyniant cymunedol.</li> </ul>	<p>2022-23</p> <p>2022-23</p>
<p><b>Amcan Cydraddoldeb 5 -</b></p> <p>Byddwn yn sicrhau bod cyfranogiad ystyrion gyda phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i roi Cam 2 ei raglen ymglymiad ar waith yn lleol, gan ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig, i gefnogi datblygiad Cynllun Llesiant Gwent.</li> <li>• Ailgynull rhwydwaith cydraddoldeb "Lleisiau Ein Cymoedd" yn ddiogel.</li> </ul>	<p>Haf 2022</p> <p>Haf 2022</p>





	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal adolygiad o Banel Dinasyddion Cyngor Blaenau Gwent a datblygu unrhyw feysydd i'w datblygu, cyn eu dyrchafu.</li> <li>• Parhau i fwrw ymlaen â blaenoriaethau plant a phobl ifanc yn ogystal â chefnogi datblygiad Rhwydwaith Ieuenctid amrywiol sy'n galluogi pawb i gymryd rhan a chael llais.</li> <li>• Sicrhau bod cwsmeriaid sy'n dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn cael eu hystyried wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth ac ymchwil defnyddwyr.</li> </ul>	<p>Ebrill 2022</p> <p>2022-23</p> <p>2022-23</p>
--	---	--

<p><b>Amcan Cydraddoldeb 6 -</b></p> <p>Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau ein bod yn sicrhau'r canlyniadau mwyaf posibl o ran cydraddoldeb, o dan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.</li> <li>• Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i wella prosesau gwneud penderfyniadau a chymryd camau i wneud unrhyw addasiadau neu welliannau angenrheidiol (e.e. hyfforddiant pellach, canllawiau gwell ac ati).</li> </ul> <p>Parhau i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a sefydliadau eraill i leihau anghydraddoldeb canlyniadau i'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.</p>	<p>2022-23</p> <p>Ebrill 2022</p> <p>2022-23</p>
--	--	--


## Atodiad

### Crynodeb o Ddata Cydraddoldeb y Gweithlu


Atodiad Data Monitro Cydraddoldeb: 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 Sylwch fod niferoedd llai na 5 wedi'u hepgor ar gyfer rhai mesurau i sicrhau anhysbysrwydd





### Statws Priodasol




### Ethnigrwydd







### Cyfeiriadedd Rhywiol



### Math o Swydd



### Ysgrifennu Cymraeg



### Darllen Cymraeg

